

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET
CYNGOR GWYNEDD
CABINET DECISION NOTICE**

Dyddiad/Date: 03/05/2016

PWNC / SUBJECT

Eitem : Strategaeth Technoleg Gwybodaeth (2016-18)

Item : *Information Technology Strategy (2016-18)*

PENDERFYNIAD / DECISION

1. Mabwysiadu'r Strategaeth Technoleg Gwybodaeth ac i'r perwyl o wireddu'r strategaeth, ariannu dwy swydd Rheolwr Cyfrif (gyda sgiliau dadansoddwr busnes/rheoli prosiect) am £74,000 yn barhaol, drwy ddefnyddio tanwariant y flwyddyn flaenorol ar gyfer 2016/17 a rhagfarnu llwyddiant cais am adnoddau erbyn 2017/18.
2. Er mwyn cyfarch pryderon y Pwyllgor Craffu Corfforaethol, y dylid ychwanegu ffrwd gwaith ychwanegol i'r Strategaeth o dan y gweithgaredd "*Technoleg fel galluogwr i drawsnewid a chyflawni*" i ystyried a yw'r cydbwysedd rhwng diogelwch ac hwylustod defnyddio'r dechnoleg yn gywir.
1. *To adopt the Information Technology Strategy, and in order to realise the strategy, fund two Account Manager posts (with business analysis/project management skills) at £74,000 permanently, by using underspend from the previous year for 2016/17 anticipating the success of a bid for resources by 2017/18.*
2. *In order to address the concerns of the Corporate Scrutiny Committee, an additional workstream should be added to the Strategy under the "Technology as an enabler to transform and deliver" activity to consider whether the balance between security and ease of use of the technology is right.*

RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD / REASON FOR THE DECISION

Argymhellwyd mabwysiadu'r Strategaeth Technoleg Gwybodaeth a gyflwynwyd yn Atodiadau A a B yr adroddiad a gyflwynwyd er mwyn cynnal a darparu technoleg sy'n cynnig gwelliannau parhaus i'r Cyngor a phobl Gwynedd.

Mae ariannu'r ddwy swydd rheolwr cyfrif gyda sgiliau rheoli prosiect a dadansoddi busnes yn hanfodol i alluogi'r Cyngor i wireddu amcanion y Strategaeth, sef i gynnal a datblygu gwasanaeth sy'n adnabod a chwrdd ag anghenion pobl Gwynedd a'r adrannau sydd yn eu gwasanaethu. Drwy ymgysylltiad parhaus rhwng y Gwasanaeth TG a'r Adrannau, byddwn yn blaenoriaethu'n adnoddau i ddarparu'r

technoleg cywir er budd pobl Gwynedd.

Mae'r strategaeth flaenorol bellach wedi dod i ddiwedd ei oes ac mae'n amser cyflwyno strategaeth newydd gan osod sylfaen o ddefnyddio technoleg i gynnal gwasanaethau effeithiol ac effeithlon i bobl Gwynedd. Mae'r strategaeth yn adeiladu ar lwyddiant y strategaeth flaenorol ond yn hytrach na rhoi'r dechnoleg fel canolbwynt, mae'n defnyddio egwyddorion a themâu i sicrhau bod y busnes yn arwain y strategaeth a'r dechnoleg yn cael ei ddarparu i gefnogi hyn.

Pwrpas y Strategaeth TG yw i osod gweledigaeth o sut all datblygiadau a gwelliannau technegol gyfarch â chynlluniau strategol y Cyngor. Cyflwynwyd y strategaeth mewn dwy ddogfen:

- Strategaeth TG 2016-18 Y Weledigaeth – mae hon yn ddogfen sy'n rhoi cyflwyniad i'r strategaeth, edrych yn ôl ar lwyddiannau'r strategaeth blaenorol, cyflwyno themâu penodol sy'n gyswllt cyffredin i nifer o ddatblygiadau ac yn gosod egwyddorion cryf sy'n greiddiol ar gyfer datblygu gwasanaeth TG sy'n gwella'r Cyngor.
- Strategaeth TG 2016-18 Gwireddu'r Weledigaeth – mae'r ddogfen yma'n adeiladu ar y cyflwyniad a roddwyd yn y weledigaeth gan gyflwyno manylion am weithgareddau oddi fewn y themâu a manylu ymhellach ar y buddion a'r ymdrech o gwblhau'r gweithgareddau hyn. Yn ogystal â threfnu'r gweithgareddau i themâu penodol, mae'r themâu eu hunain yn cael eu paru gydag amcanion Cynllun Strategol y Cyngor.

Mae'r cynlluniau sydd yn y strategaeth yn darparu gwasanaeth fydd yn cyflwyno gwelliannau parhaus i'r Cyngor gan ddefnyddio technoleg i gefnogi gwasanaethau effeithiol ac effeithlon i bobl Gwynedd.

Mae'r strategaeth hefyd yn ymwneud â'r math o Sir a geisir ei greu yn Ngwynedd, yn arloesol, yn berthnasol i'n dinasysdion ac yn eu galluogi i wneud defnydd llawn o'u gwybodaeth a'u sgiliau.

Ystyriwyd a thrafodwyd yr angen i sefydlu ffrwd gwaith o fewn y strategaeth i'r perwyl o adolygu'r cydbwysedd rhwng diogelwch gwybodaeth a hwylustod y dechnoleg.

A recommendation was made to adopt the Information Technology Strategy submitted in Appendices A and B of the report in order to maintain and provide technology which offers continuous improvements to the Council and the people of Gwynedd.

Funding the two account manager posts with project management and business analysis skills is crucial to allow the Council to realise the objectives of the Strategy, namely to maintain and develop a service which identifies and meets the needs of the people of Gwynedd and the departments which serve them. Through continuous engagement between the IT Service and the Departments, we will prioritise our resources to provide the right technology in the interests of the people of Gwynedd.

The previous strategy has now reached the end of its existence and it is time to present a new IT Strategy by laying the foundations of using technology to support effective and efficient services for the people of Gwynedd. The strategy builds on the success of the previous strategy but rather than focusing on the technology, it uses principles and themes to ensure that the business leads the strategy and the technology is provided to support this.

The purpose of the IT Strategy is to set out the vision of how technological advances and developments address the Council's strategic plans. The strategy was submitted in two documents:

- IT Strategy (2016-18) The Vision – this is a document which introduces the strategy, looks retrospectively at the successes of the previous strategy, introduces specific themes which are common to many developments and set robust principles which are core to developing the IT service, which in turn improves the Council.*
- IT Strategy (2016-18) Realising the Vision – this document builds on the introduction provided in the vision by providing details on activities within the themes, and providing further details of the benefits and the efforts made to complete these activities. As well as arranging the activities of specific themes, the themes themselves are paired with the objectives of the Council's strategic plan.*

The plans within the strategy provide a service which will continually improve the Council, using technology to support effective and efficient services for the people of Gwynedd.

The strategy also covers the type of County we are seeking to create in Gwynedd, innovative, relevant to our citizens, enabling them to make full use of their knowledge and skills.

The need to establish a work stream within the strategy in order to review the balance between security of information and ease of use of the technology was considered and discussed.

SYLWADAU NEU BWYNTIAU CROES / OBSERVATIONS OR OPPOSING VIEWS

Derbyniwyd yr adroddiad a gyflwynwyd gan yr Aelod Cabinet Adnoddau.

The report submitted by the Cabinet Member for Resources was accepted.

BARN Y SWYDDOGION STATUDOL / THE VIEWS OF THE STATUTORY OFFICERS

1. Y Prif Weithredwr / *Chief Executive:-*

Mae Technoleg yn adnodd bwysig i gefnogi gwelliant parhaus yng ngwasanaethau'r Cyngor i drigolion. Mae cael Strategaeth Technoleg Gwybodaeth gadarn yn ei le yn

ofyn pwysig er mwyn gwneud hynny.

Mae'n bwysig bod y Strategaeth yn adlewyrchu ar yr hyn a gyflawnwyd ac yn dysgu gwersi o'r gorffennol. Mae darn penodol o'r Strategaeth yn gwneud hynny. Yr elfen allweddol arall yw bod y Strategaeth yn dangos ei fod yn hyblyg a bod ein defnydd o adnoddau technolegol yn ymateb i anghenion gwasanaeth penodol ar gyfer y dyfodol.

Technology is an important asset to support continuous improvement in the Council's services to its citizens. Having a sound Information Technology Strategy is tantamount to enable this.

It's important that the Strategy reflects on what has been achieved and lessons learnt in the past. There is specific reference in the Strategy to do so. The other essential element is that the Strategy shows that it is flexible and that our use of technical resources responds to the needs of services to the future.

2. Swyddog Monitro / *Monitoring Officer*:-

Mae sefydlu strategaeth TG yn gyfraniad pwysig at lywodraethu'r awdurdod ac nid oes gennyf sylwadau i'w cynnig o safbwynt priodoldeb.

Establishing an IT Strategy is an important contribution for the authority's governance and I don't have any comments regarding propriety.

3. Prif Swyddog Cyllid / *Chief Finance Officer*:-

Rwyf wedi cydweithio gyda'r Aelod Cabinet i baratoi'r adroddiad a gyflwynwyd ac yn cadarnhau'r cynnwys.

I have collaborated with the Cabinet Member in the preparation of this report and I confirm the content.

BARN YR AELOD LLEOL / VIEWS OF THE LOCAL MEMBER

Nid yw'n fater lleol.

Not a local matter.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET
CYNGOR GWYNEDD
CABINET DECISION NOTICE**

Dyddiad/Date: 03/05/2016

PWNC / SUBJECT

Eitem : Ymateb i Ofynion Rhan 8 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Item : Responding to the requirements of Part 8 of the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014

PENDERFYNIAD / DECISION

Mabwysiadu a gweithredu'r Protocol a gyflwynwyd fel Atodiad 1 i'r adroddiad i sicrhau ein bod yn ymateb yn llawn i ofynion Rhan 8 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

To adopt and implement the Protocol submitted as Appendix 1 to the report to ensure that we respond in full to the requirements of Part 8 of the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014.

RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD / REASON FOR THE DECISION

Mae'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn weithredol ers y 6ed o Ebrill eleni ac mae sawl rhan o'r Ddeddf sy'n gosod cyfeiriad newydd ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru, gan gynnwys Rhan 8 sy'n ymwneud yn benodol â dyletswyddau'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol.

Er mwyn sicrhau bod Rhan 8 o'r Ddeddf yn cael ei weithredu, mae mabwysiadu 'protocol gweithdrefnau'(Protocol), sydd yn gosod allan sut mae gwahanol ofynion o'r rôl yn cael eu cyflawni, yn ffordd effeithiol i'r Cyngor sicrhau ei fod yn cwrdd â'r gofynion yn llawn.

Wrth fabwysiadu'r Protocol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol, mae'r Cabinet yn rhoi trefniadau clir ac eglur yn eu lle sy'n sicrhau bod pawb perthnasol yn deall beth sydd yn ofynnol ohonynt o ran cwrdd â gofynion Rhan 8 o'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Yn ogystal, mae'n sicrhau dealltwriaeth o rôl y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol ymhlith staff ac Aelodau'r Cyngor.

Gosoda'r Protocol (Atodiad 1 yr adroddiad a gyflwynwyd) drefniadau'r Cyngor parthed sut mae'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol yn diwallu ei rôl yn erbyn disgwyliadau o fewn Rhan 8.

The Social Services and Well-being (Wales) Act 2014 has been in effect since 6 April this year and there are several parts to the Act which sets out a new direction for social services in Wales, including Part 8 which covers the duties of the Director of Social Services specifically.

In order to ensure that Part 8 of the Act is implemented, adopting a 'procedures protocol' (Protocol), which sets out how the various requirements of the role are fulfilled, would be an effective way for the Council to ensure that it meets the requirements in full.

By adopting the Director of Social Services' Protocol, the Cabinet is putting clear and explicit arrangements in place which ensure that all relevant persons understand what is expected of them in terms of meeting the requirements of Part 8 of the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014. In addition, it ensures an understanding of the role of the Director of Social Services amongst Council staff and members.

The Protocol (Appendix 1 of the report submitted) sets out the Council's arrangements in relation to how the Director of Social Services fulfils her role against the expectations within Part 8.

SYLWADAU NEU BWYNTIAU CROES / OBSERVATIONS OR OPPOSING VIEWS

Derbyniwyd yr adroddiad a gyflwynwyd gan y Dirprwy Arweinydd ar ran yr Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant a'r Aelod Cabinet Plant, Pobl Ifanc a Hamdden.

The report, submitted by the Deputy Leader on behalf of the Cabinet Member for Adults, Health and Well-being and the Cabinet Member for Children, Young People and Leisure was accepted.

BARN Y SWYDDOGION STATUDOL / THE VIEWS OF THE STATUTORY OFFICERS

1. Y Prif Weithredwr / Chief Executive:-

Dim i'w ychwanegu i'r cynigion sydd wedi bod yn destun cryn drafod wrth eu datblygu.

Nothing to add to the proposals which have been the subject of considerable discussions as they were developed.

2. Swyddog Monitro / Monitoring Officer:-

Mae'r Adroddiad a gyflwynwyd yn argymhell Protocol newydd ar gyfer y Cyfarwyddwr sydd yn sefydlu ymateb priodol gan y Cyngor i ofynion Rhan 8 o'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a'r cod statudol sydd yn deillio o'r ddarpariaeth.

This report recommends a new Protocol for the Director which establishes an appropriate response by the Council to the requirements of Part 8 of the Social Services and Well-being Act (Wales) 2014 and the statutory code which derives from the provision.

3. Prif Swyddog Cyllid / *Chief Finance Officer*:-

Deallaf nad oes ymhlygiadau ariannol o weithredu'r penderfyniad a geisir yn yr adroddiad a gyflwynwyd.

I understand that implementing the decision sought in this report will not lead to any financial implications.

BARN YR AELOD LLEOL / VIEWS OF THE LOCAL MEMBER

Nid yw'n fater lleol.

Not a local matter.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET
CYNGOR GWYNEDD
CABINET DECISION NOTICE**

Dyddiad/Date: 03/05/2016

PWNC / SUBJECT

Eitem : Ymateb i ofynion Rhan 9 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Item: Responding to the requirements of Part 9 of the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014

PENDERFYNIAD / DECISION

1. Derbyn nodi sefydlu'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, yn unol â Rhan 9 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.
2. Cefnogi sefydlu'r Bwrdd Cysgodol Partneriaeth Rhanbarthol am y cyfnod hyd nes bydd y trefniadau ffurfiol wedi eu cadarnhau.
3. Enwebu y Cyng. William Gareth Roberts, Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant, sydd â chyfrifoldeb o fewn y maes gwasanaethau cymdeithasol, i eistedd ar y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Enwebu'r Cyng. Mair Rowlands, Aelod Cabinet Plant, Pobl Ifanc a Hamdden fel dirprwy.
4. Ymrwymo i ariannu'r costau i gefnogi'r trefniadau rhanbarthol o 2017/18, yn unol â'r lefel trefniadau presennol.
5. Cyn cytuno i unrhyw strwythur arfaethedig y dylid gofyn am ragor o waith er mwyn manylu ymhellach ar gyfansoddiad y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, y drefn llywodraethu, ac yn arbennig y llinellau atebolrwydd a'i berthynas gyda'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol a'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

1. To accept establishing a Regional Partnership Board, in accordance with Part 9 of the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014.

2. To support the establishment of the Regional Partnership Shadow Board for the period until formal arrangements have been confirmed.

3. To nominate Cllr William Gareth Roberts, Cabinet Member for Adults, Health and Well-being, with responsibility within the social services field, to sit on the Regional Partnership Board. To nominate Cllr Mair Rowlands, Cabinet Member for Children, Young People and Leisure as a deputy.

4. To commit to finance the costs of supporting the regional arrangements from 2017/18, in accordance with the existing level of arrangements.

5. Before agreeing to any proposed structure that further work should be requested in order to provide further details on the constitution of the Regional Partnership Board, the governance arrangements, and in particular the lines of accountability and its relationship with the Local Services Board and the Public Services Board.

RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD / REASON FOR THE DECISION

Mae'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn weithredol ers y 6ed o Ebrill eleni ac mae Rhan 9 o'r Ddeddf yn gofyn i awdurdodau lleol i wneud trefniadau i hyrwyddo cydweithredu gyda phartneriaid perthnasol ac eraill mewn perthynas ag oedolion gyda gofynion gofal a chefnogaeth, gofawyr a phlant. Mae hefyd yn gosod dyletswydd ar y partneriaid perthnasol i gydweithredu gyda'r awdurdodau lleol ar gyfer y pwrpas o gynllunio a darparu eu swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol. Mae ganddynt hefyd ddyletswydd i rannu gwybodaeth a bydd yr wybodaeth yma yn greiddiol i gwblhau'r asesiad angen rhanbarthol, a fydd yn cynnig arweiniad ar y gwaith o ddarparu gweithio integredig yn lleol. Pwrpas Rhan 9 o'r Ddeddf yw gwella canlyniadau a llesiant pobl yn ogystal â gwella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd darparu gwasanaethau.

Nodir y rhesymau dros y penderfyniadau unigol isod.

1. Mae'r gofyn am sefydlu Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn ofyn statudol o dan rhan 9 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.
 2. Mae'r cynnig i gael Bwrdd Cysgodol Partneriaeth Rhanbarthol hyd nes y bydd y trefniadau ffurfiol yn eu lle yn un rhesymol o dan yr amgylchiadau, ac yn osgoi cyfnod o oedi.
 3. Mae aelodaeth y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol wedi ei sefydlu yn y rheoliadau. Yn ogystal, mae'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Aelod Cabinet ar gyfer Oedolion, Iechyd a Llesiant yn aelodau o'r cyn Fforwm Partneriaeth Rhanbarthol, ac yn trafod materion iechyd a gofal yn rhanbarthol. Bydd angen ceisio sicrhau bod trafodaeth gyson yn digwydd rhwng y ddau aelod cabinet perthnasol o ran y gofynion materion plant a phobl ifanc. Byddai trefn o ofyn am drefniadau dirprwyo ffurfiol yn rhoi cyfle i'r ddau Aelod Cabinet fod yn ymglymedig.
 4. Ar hyn o bryd mae'r gost o gefnogi trefniadau'r Bwrdd yn cael eu talu o grant Llywodraeth Cymru (*Delivering Transformation Grant*) a bydd hyn yn parhau am y flwyddyn 2016/17. Bydd y ffynhonnell ariannol yma yn newid o 2017/18 ymlaen a bydd angen ariannu'r gost o gefnogi'r trefniadau o gyllideb y Cyngor. Ni fydd hwn yn gost ychwanegol i'r Cyngor gan y bydd yr arian yn cael ei ychwanegu i'r setliad.
 5. Mae'r strwythur sydd wedi ei osod yn Atodiad 1 yr adroddiad a gyflwynwyd yn ceisio ymateb i'r angen i'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol fod yn ymgysylltu â'r byrddau a grwpiau rhanbarthol sydd eisoes yn eu lle. Fodd bynnag, trafodwyd y strwythur a nodwyd bod y cyfansoddiad yn aneglur, ac nad yw'r llinellau atebolrwydd yn glir. Yn ogystal, nodwyd bod angen rhagor o eglurder ar berthynas y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol gyda'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol a'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. O ganlyniad, mae angen rhagor o waith ar y materion
-

yma er trafodaeth bellach gan y Cabinet er mwyn bod yn glir ym mhle gorwedda'r atebolrwydd a chan bwy, a sut y bwriedir ymarfer yr atebolrwydd hwnnw.

The Social Services and Well-being (Wales) Act 2014 is in effect since 6 April this year and Part 9 of the Act requires local authorities to make arrangements to promote co-operation with relevant partners and others in relation to adults with needs for care and support, carers and children. It also places a duty on relevant partners to co-operate with, and provide information to, the local authorities for the purpose of planning and providing their social services functions. They also have a duty to share information and this information will be crucial to completing the regional needs assessment, which will offer guidance on the work of providing local integrated working. The purpose of Part 9 of the Act is to improve outcomes and well-being of people, as well as improving the efficiency and effectiveness of service delivery.

The reasons for the individual decisions are noted as follows:

- 1. The requirement to establish a Regional Partnership Board is a statutory requirement under Part 9 of the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014.*
 - 2. The proposal to have a Regional Partnership Shadow Board until the formal arrangements are in place is reasonable under the circumstances, and avoids a period of delay.*
 - 3. Membership of the Regional Partnership Board has been established in the regulations. In addition, the Director of Social Services and the Cabinet Member for Adults, Health and Well-being are members of the former Regional Partnership Forum, and discuss health and care matters regionally. There will be a need to ensure that regular discussions take place between the two relevant cabinet members in terms of the requirements of children and young people matters. Requesting formal delegation arrangements will give both members an opportunity to be involved.*
 - 4. The cost of supporting the Board's arrangements are covered by a Welsh Government grant ('Delivering Transformation Grant') and this will continue for the 2016/17 year. This source of funding will change from 2017/18 onwards and the cost of supporting the arrangements will need to be financed from the Council's budget. This will not be an additional cost for the Council as the money will be added to the settlement.*
 - 5. The structure set out in Appendix 1 of the report submitted seeks to respond to the need for the Regional Partnership Board to engage with the regional boards and groups which are already in place. However, the structure was discussed and it was noted that the constitution was unclear, and that the lines of accountability are not clear. In addition, it was noted that further clarity regarding the relationship of the Regional Partnership Board with the Local Services Board and the Public Services Board was needed. Consequently, further work is required on these matters for further discussion by the Cabinet in order to clarify where and with whom accountability lies, and how it is intended to exercise that accountability.*
-

SYLWADAU NEU BWYNTIAU CROES / OBSERVATIONS OR OPPOSING VIEWS

Derbyniwyd yr adroddiad a gyflwynwyd gan y Dirprwy Arweinydd ar ran yr Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant a'r Aelod Cabinet Plant, Pobl Ifanc a Hamdden.

Gwaelodlin aelodaeth y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol sydd wedi ei sefydlu yn y rheoliadau. Cynghorwyd fod angen eglurdeb a chytundeb pellach ynglŷn ag union gyfansoddiad y Bwrdd ac hefyd adnabod a phenodi cynrychiolwyr cyrff megis y trydydd sector fydd yn aelodau statudol.

Tra'n derbyn fod yr argymhelliad ynglŷn â'r strwythur a gyflwynwyd yn yr adroddiad yn ymdrech i sicrhau fod gofynion y Ddeddf parthed y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn cael eu gwireddu, roedd ymdeimlad bod angen tipyn mwy o waith ar y llinellau atebolrwydd a sut y byddai rhain yn gweithio'n ymarferol er mwyn i hynny fod yn eglur o'r cychwyn ac osgoi creu dryswch.

The report, submitted by the Deputy Leader on behalf of the Cabinet Member for Adults, Health and Well-being and the Cabinet Member for Children, Young People and Leisure was accepted.

The baseline membership of the Regional Partnership Board has been established in the regulations. It was advised that further clarity and agreement was required regarding the exact constitution of the Board and also to identify and appoint representatives of bodies such as the third sector who will be statutory members.

Whilst accepting that the recommendation regarding the structure, submitted in the report, is an attempt to ensure that the requirements of the Act in relation to the Regional Partnership Board are realised, there was a feeling that considerable further work was required on the lines of accountability and how these would work in practice in order for that to be clear from the beginning and to avoid creating any confusion.

BARN Y SWYDDOGION STATUDOL / THE VIEWS OF THE STATUTORY OFFICERS

1. Y Prif Weithredwr / Chief Executive:-

Dim i'w ychwanegu i'r cynigion sydd wedi bod yn destun cryn drafod wrth eu datblygu.

Nothing to add to the proposals which have been the subject of considerable discussions as they were developed.

2. Swyddog Monitro / Monitoring Officer:-

Mae sefydlu Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn statudol ac yn cael ei reoli yn helaeth iawn gan statud, yn benodol Rheoliadau Trefniadau Partneriaethu (Cymru) 2015. Gosodir materion megis ardal, cyfrifoldebau aelodaeth yn eithaf penodol o

fewn y rheoliadau. Felly, mae nifer o'r camau yn yr adroddiad a gyflwynwyd yn adlewyrchu y sefyllfa yma.

Establishing a Regional Partnership Board is statutory and is heavily controlled by statute, specifically the Partnership Arrangements (Wales) Regulations 2015. Matters such as area and membership responsibility are set out quite specifically within the regulations. Therefore, many of the steps within the report reflect this situation.

3. Prif Swyddog Cyllid / Chief Finance Officer:-

Nodaf fod paragraffau 10 ac 11 o'r adroddiad a gyflwynwyd yn crybwyll "pooled funds", a bydd angen gofal wrth gynllunio'r rheiny. Nodaf hefyd fod paragraff 26 yr adroddiad honno'n sôn bydd y 'Delivering Transformation Grant' yn trosglwyddo i'r setliad yn 2017/18. Os felly, fel dywedai paragraff 31, gall y datblygiad fod yn gost-niwtral.

I note that paragraphs 10 and 11 of the report mentions "pooled funds" and care will need to be taken when planning those. I also note that paragraph 26 of that report mentions that the Delivering Transformation Grant will transfer to the settlement in 2017/18. Therefore, as noted in paragraph 31, the development could be cost-neutral.

BARN YR AELOD LLEOL / VIEWS OF THE LOCAL MEMBER

Ddim yn fater lleol.

Not a local matter.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET
CYNGOR GWYNEDD
CABINET DECISION NOTICE**

Dyddiad/Date: 03/05/2016

PWNC / SUBJECT

Eitem : Trosolwg Perfformiad Cyngor Gwynedd 2015/16 – Meysydd Plant a Phobl Ifanc, y Gymraeg, Cyngor Effeithiol ac Effeithlon a Chynllunio Ariannol

Item : Overview of Gwynedd Council's Performance 2015/16 - fields of Children and Young People, the Welsh Language, Effective and Efficient Council and Financial Planning

PENDERFYNIAD / DECISION

Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad a gyflwynwyd.

To accept and note the information in the report submitted.

RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD / REASON FOR THE DECISION

Yn unol â chyfundrefn rheoli perfformiad y Cyngor, cyflwynir trosolwg o berfformiad y Cyngor hyd yma yn 2015/16 er mwyn i'r Cabinet sicrhau rheoli perfformiad effeithiol.

Mae'r adroddiad a gyflwynwyd yn canolbwyntio ar Blant a Phobl Ifanc, Y Gymraeg, Cyngor Effeithiol ac Effeithlon a Chynllunio Ariannol sy'n rhan o bortffolio'r Aelodau Cabinet canlynol:

Y Cynghorydd Gareth Thomas, Aelod Cabinet Addysg
Y Cynghorydd Mair Rowlands, Aelod Cabinet Plant, Pobl Ifanc a Hamdden
Y Cynghorydd Peredur Jenkins, Aelod Cabinet Adnoddau
Y Cynghorydd Dyfrig Siencyn, Dirprwy Arweinydd

Mae'r adroddiad yn cyfarch y cynlluniau trawsnewidiol sydd yn y Cynllun Strategol yn ogystal ag yn tynnu sylw at y mesurau perfformiad sydd yn adlewyrchu gwaith dydd i ddydd y Cyngor.

Cyflwynwyd adroddiadau cynnydd cryno ar brosiectau'r Cynllun Strategol 2015/16 yn y meysydd Plant a Phobl Ifanc, y Gymraeg, Cyngor Effeithiol ac Effeithlon a Chynllunio Ariannol (sydd ym mhortffolio'r Cynghorwyr Mair Rowlands, Gareth Thomas, Peredur Jenkins a Dyfrig Siencyn)

Diweddarwyd yr wybodaeth fwyaf cyfoes ar gyfer rhai o brosiectau Plant a Phobl Ifanc fel a nodwyd isod:

P5 Dalgylch y Gader – Mae'r gwaith ar safle Ysgol Ieuan Gwynedd, Rhydymain bron a dod i ben ac mae'r gwaith wedi ei ddechrau ar safle Ysgol Llanelltyd.

P6 Glancegin – Yn dilyn cymeradwyaeth i'r achos busnes gan Lywodraeth Cymru, disgwylir dechrau'r gwaith ym mis Mehefin a rhagwelir y bydd yn parhau am oddeutu 18 mis, gyda'r gobaith o'i gwblhau yn ystod tymor yr Hydref 2018.

P7 Dalgylch y Berwyn – cywiriwyd mai ym Medi 2018 (nid Medi 2017) y disgwylir i'r ysgol newydd agor.

In accordance with the Council's performance management system, an overview of the Council's performance in 2015/16 to date is submitted so that the Cabinet can ensure effective performance management.

The report submitted focuses on Children and Young People, The Welsh Language, Effective and Efficient Council and Financial Planning which are included in the portfolios of the following Cabinet members:

Councillor Gareth Thomas, Cabinet Member for Education

Councillor Mair Rowlands - Cabinet Member for Children, Young People and Leisure

Councillor Peredur Jenkins, Cabinet Member for Resources

Councillor Dyfrig Siencyn, Deputy Leader

The report addresses the transformational plans included in the Strategic Plan and draws attention to the performance measures that reflect the Council's day to day work.

Brief progress reports were submitted on the projects of the Strategic Plan 2015-16 in the fields of Children and Young People, the Welsh Language, Effective and Efficient Council and Financial Planning (within the portfolios of Councillors Mair Rowlands, Gareth Thomas, Peredur Jenkins and Dyfrig Siencyn).

The most up to date information was given on some of the Children and Young People projects as noted below:

P5 The Gader Catchment Area - *The work on the Ysgol Ieuan Gwynedd, Rhydymain site is nearly at an end and work has commenced on the Ysgol Llanelltyd site.*

P6 Glancegin - *Following approval of the business case by Welsh Government, work is expected to commence in June and it is anticipated that it will continue for approximately 18 months, with the hope that it will be completed in the autumn 2018 term.*

P7 The Berwyn Catchment Area – *a correction was noted that the new school was expected to open in September 2018 (not September 2017).*

SYLWADAU NEU BWYNTIAU CROES / OBSERVATIONS OR OPPOSING VIEWS

Derbyniwyd yr adroddiad a gyflwynwyd gan yr Arweinydd.

Mewn perthynas â'r maes diogelu, nodwyd bod Swyddog Diogelu bellach yn ymweld ag ysgolion i sicrhau trefniadau a diwylliant diogelu cadarn yn yr ysgolion ond gofynnwyd a oedd modd cael adroddiad ar lwyddiant y gwaith yma. Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr y byddai modd cynnwys hynny yn yr adroddiad a gaiff ei gyflwyno i'r Cabinet fel rhan o'r trefniadau llywodraethu ym maes diogelu.

The report submitted by the Leader was accepted.

In relation to safeguarding, it was noted that a Safeguarding Officer was now visiting schools to ensure that schools have robust safeguarding arrangements and culture; however, a report on the success of this work was requested. The Director confirmed that this could be included in the report submitted to the Cabinet as part of the governance arrangements in the field of safeguarding.

BARN Y SWYDDOGION STATUDOL / THE VIEWS OF THE STATUTORY OFFICERS

1. Y Prif Weithredwr / *Chief Executive:-*

Dim i'w ychwanegu i'r adroddiad a gyflwynwyd sy'n hunan-esboniadol.

Nothing to add to the report submitted which is self-explanatory.

2. Swyddog Monitro / *Monitoring Officer:-*

Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb.

No comments to add from a propriety perspective.

3. Prif Swyddog Cyllid / *Chief Finance Officer:-*

Dim i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb ariannol.

Nothing to add regarding financial propriety.

BARN YR AELOD LLEOL / VIEWS OF THE LOCAL MEMBER

Ddim yn fater lleol.

Not a local matter.
